

**CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR  
GAERFYRDDIN  
CYNLLUN GWEITHREDU YNGHYLCH RHYWOGAETHAU YSTLUMOD**

**Cyflwyniad**

Mae'r cynllun hwn yn ymdrin ag amrywiaeth o rywogaethau ystlumod a nodwyd yn Rhywogaethau Blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Prydain yng Nghymru sy'n bod neu sy'n debygol o fod yn Sir Gaerfyrddin: ystlum lleiaf cyffredin ac ystlum lleiaf soprano, ystlum du, ystlum mawr, ystlum hirglust brown, ystlum pedol mwyaf ac ystlum pedol lleiaf. Gan fod ystlumod yn aml yn clwydo gyda'i gilydd a bod ganddynt ofynion tebyg gellir cymryd y bydd yr holl rywogaethau eraill sydd yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n debygol o fod yn y sir, yn cael eu cynnwys yn y cynllun: ystlum barfog, ystlum Brandt, ystlum Natterer, ystlum y dŵr ac ystlum adain-lydan.



Mae gan y gwahanol rywogaethau o ystlumod wahanol ofynion ecolegol a gwahanol strategaethau bwydo ond un peth sy'n gyffredin rhyngddynt yw bod pob un angen amrywiaeth eang o gynefinoedd adeiledig, lled-naturiol a naturiol ar gyfer eu gofynion amrywiol o ran bwydo a chlwydo. Mae safleoedd clwydo ar gyfer gaeafgyssgu yn darparu tymereddau sefydlog er mwyn caniatáu cyfnod o drwmgwsg gaeaf, e.e. safleoedd dan ddaear megis ogofau/mwynfeydd. Yn y gwanwyn/dechrau'r haf bydd ystlumod benyw yn crynhoi mewn safleoedd clwydo sy'n feithrinfeydd ar gyfer geni a magu eu hepil unigol (e.e. mewn gwagleoedd yn y to, craciau a holltau mewn coed llawn dwf). Mae gan unigolion neu grwpiau bach o ystlumod gwryw safleoedd clwydo ar wahân yn ystod y gwanwyn-hydref mewn gwagleoedd yn y to neu goed. Yn olaf, ymddengys bod safleoedd eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer 'cymdeithasu' ar wahanol adegau o'r flwyddyn (e.e. y tymor magu yn yr hydref) ar gyfer rhai neu bob un o'r rhywogaethau.

Mae ystlumod yn bwydo mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd (tir fferm, coetir, maestrefi, parciau, corsydd, cyrsiau dŵr a llynnoedd), a'u deiet yw pryfed bach megis gwybed mân, pryfed gwellt, clêr Mai, chwilod y bwm, adenydd sidan a gwyfynod bach. Yn gyffredinol maent yn ffafrio mosaig o gynefinoedd ac i rai rhywogaethau (ystlumod pedol) ymddengys bob rhwydwaith cysylltiedig o wrychoedd a choed yn bwysig.

Mae gennym y wybodaeth ganlynol am y rhywogaethau sy'n flaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r ystlumod lleiaf a'r ystlumod lleiaf meinlais yn bodoli ar draws ardal eang ac mae'r ystlumod hirglust yn bodoli mwy na thebyg ar draws ardal eang mewn niferoedd bach ar iseldir – maent i gyd yn cael eu cofnodi'n rheolaidd yn y sir. Mae'r ystlumod pedol lleiaf wedi'u dosbarthu'n eang ledled iseldir Cymru. Sir Benfro yw prif ganolfan boblogaeth yr ystlumod pedol mwyaf gyda phoblogaethau pwysig eraill mewn rhannau o dde a dwyrain Cymru – cofnodir y ddwy rywogaeth yn y sir yn achlysurol. Mae'r ystlumod du i'w cael yn bennaf yn hanner deheuol Cymru gyda manau magu ystlumod wedi'u nodi yn Sir Benfro ac yng Ngheredigion – mae'n ddigon posibl fod y rhywogaeth i'w chael mewn cynefinoedd addas yn Sir Gaerfyrddin hefyd.

Mae creu ac adfer cynefinoedd yn gam gweithredu allweddol i helpu rhywogaethau o ystlumod. Bydd creu a/neu warchod cynefinoedd ar hyd glannau afon yn agos i fannau clwydo pwysig ystlumod lleiaf meinlais, ynghyd â gwella ansawdd y dŵr, yn cynyddu nifer y pryfed yn y cynefin y mae'r ystlumod yn dewis chwilota am fwyd ynddo. Bydd cadw, plannu a helaethu'r coetir, y tir parc a'r coed amwynder a'r perthi ger manau clwydo o bwys yr ystlumod hirglust o gymorth i'r rhywogaeth honno.

Er budd yr ystlumod pedol lleiaf, dylid creu rhwydwaith cynefinoedd i ddarparu cyswllt rhwng pob math o fannau clwydo pwysig (gan gynnwys manau clwydo ar gyfer magu, gaeafgysgu, paru, noswyllo a manau pontio pwysig) a'r cynefin sydd o'u cwmpas a'r manau chwilota am fwyd. Yn ogystal, ni ddylid anwybyddu pwysigrwydd yr amgylchedd adeiledig i'r ystlumod pedol lleiaf. Gellid dylanwadu ar arferion adeiladu i annog creu manau clwydo i ystlumod pedol lleiaf fel rhan o waith adfer neu waith ar ddatblygiadau newydd. Er budd yr ystlumod, dylid annog rheoli coetir, tir parc a choed amwynder mewn modd priodol er mwyn cynnal a chynyddu nifer y manau clwydo addas.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod arolygon yn cael eu cynnal sy'n cyfrannu i'r gwaith o gynllunio/penderfynu ynghylch unrhyw gynllun/prosiect sydd â'r potensial o effeithio ar ystlumod fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol/polisi. Dylai datblygwyr, rheolwyr coetiroedd, y rhai sy'n trin coed a chontractwyr i gyd fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ystlumod ac yn ymwybodol hefyd o'r cyfraniad cadarnhaol a negyddol y gallan nhw ei wneud i'r rhywogaethau hyn.

#### **Bygythiadau allweddol (a gafwyd o wefan [INCC](#))**

- Colli neu darfu ar safleoedd clwydo, yn enwedig mewn adeiladau
- Gostyngiad yn niferoedd y pryfed a'r cynefinoedd bwydo
- Pwysau amaethyddol – plaeiddiaid a cholli systemau bugeiliol
- Llygredd a mewnlenni pyllau dŵr
- Arferion coedwigaeth anghydnaaws

#### **Datganiad gweledigaeth ac amcanion**

Ein nod yma yn Sir Gaerfyrddin yw helpu i gynnal amrywiaeth a phoblogaeth ein rhywogaethau o ystlumod, sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n ddigonol drwy'r broses ddatblygu, rheoli manau hela a chadw a chreu llinellau hedfan. Mae parhau i godi ymwybyddiaeth yn rhan bwysig o sicrhau bod yr amcanion cadwraeth yn cael eu cyflawni ar gyfer y grŵp pwysig hwn o rywogaethau. Byddai unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

- BAT1** Cynnal a chynyddu poblogaeth pob rhywogaeth o ystlumod yn Sir Gaerfyrddin
- BAT2** Casglu data ynghylch dosbarthiad a statws rhywogaethau ystlumod yn Sir Gaerfyrddin
- BAT3** Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ystlumod yn Sir Gaerfyrddin a rhoi cyngor ynghylch rheoli cynefinoedd/safleoedd clwydo a'u statws gwarchoddedig

**Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – [Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk](mailto:Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk)) neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth - <http://ukbars.defra.gov.uk>:**

## **2010–12**

- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd – gosodwyd blychau ystlumod yn Nyffryn Tywi BAT1
- Monitro safleoedd clwydo – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod BAT2
- Cynhaliwyd Arolwg Ystlumod Trefol yn y sir – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod/Cyngor Sir Caerfyrddin BAT2
- Cyfrannwyd i raglen genedlaethol monitro ystlumod yn y sir – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod BAT2
- Cynhaliwyd digwyddiadau 'ystlumod' yn y sir – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod/Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru/Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol BAT2
- Ffurfiwyd Grŵp Ystlumod yn y sir a threfnwyd ymweliadau safle BAT3
- Rhaid cael arolygon ar gyfer ceisiadau cynllunio a allai effeithio ar ystlumod – Cyngor Sir Caerfyrddin BAT4
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer cynllunwyr/asiantiaid/penseiri – Cyngor Sir Caerfyrddin BAT3
- Sefydlwyd blog ar gyfer y Grŵp Ystlumod – <http://carmarthenshirebatgroup.blogspot.co.uk> BAT3

## **2013**

- Blychau ystlumod wedi eu gosod fel rhan o gynllun Tirwedd a Bioamrywiaeth y Cynllun Datblygu Gwledig BAT1

## **2014**

- Datblygwyd trawslun gan gerdded ar hyd-ddo er mwyn monitro ystlumod lleiaf ac ystlumod mawr ym Mhwl Edrychiad a Gogledd y Garn yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel - YNDGC

## **2015**

- Teithiau cerdded i weld ystlumod ym Mhen-bre yn ystod Wythnos Bioamrywiaeth Cymru – CSC BAT3
- Arolwg ystlumod yng Nglan-y-fferi gyda'r gymuned leol – BCT/CSC BAT2/3
- Hyfforddiant i swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin ar ystlumod, adeiladau a phontydd – BCT/CSC BAT3
- Diweddariad ar ddsbarthiad gwybyddus cyfredol ystlumod Barbastelle – sefydlu cofnodion Sir Gaerfyrddin BAT2
- Prosiect Ystlumod Prin y Goedwig – arolwg o goedwig y Strade – Cofnodwyd nathusius pipistrelle BAT2

## **Camau arfaethedig i'r dyfodol**

- Hyfforddiant ar y safle ynghylch ystlumod i beirianyddion pontydd - CSC BAT3
- Parhau â Phrosiect Ystlumod Prin y Goedwig – BCT BAT2
- Arolwg o ddŵr agored yn ardal Llanelli i ganfod Nathusius pipistrelle – BCT BAT2

## **Dolenni defnyddiol:**

- [Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod / Bat Conservation Trust](#)
- [Grŵp Ystlumod Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Bat Group](#)
- [Chwiliwr Ystlumod / Bat Detective](#)
- Cyfoeth Naturiol Cymru - trwyddedau ystlumod / Natural Resources Wales - [bat licences](#)

## Deddfwriaeth

Ym Mhrydain mae pob rhywogaeth ystlumod a'u safleoedd clwydo yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol, gan ddeddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol. Mae hynny'n golygu y byddwch yn cyflawni trosedd os byddwch yn gwneud unrhyw un o'r canlynol:

- Dal, anafu neu ladd ystlum yn fwriadol
- Tarfu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar ystlum yn ei safle clwydo neu darfu'n fwriadol ar grŵp o ystlumod
- Difrodi neu ddifa safle clwydo ystlumod (hyd yn oed os nad oes ystlumod yn y safle clwydo ar y pryd)
- Meddu ar neu hysbysebu/gwerthu/cyfnewid ystlum (byw neu farw) neu unrhyw ran o ystlum
- Rhwystro'n fwriadol neu'n ddi-hid fynediad i safle clwydo ystlumod

Ewch i wefan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod –


Ystlumod a'r Gyfraith - [Bats and the Law](#) i gael rhagor o wybodaeth.

*Mae ystlumod wedi bod yn hedfan ers miliynau o flynyddoedd ac nid oes unrhyw famal arall wedi cael y gallu i hedfan.*

*Mae'r Tsieineaidd yn ystyried ystlumod fel symbolau o hapusrwydd a lwc dda (iechyd, cyfoeth, serenedd, rhinwedd, a hir oes). Ar un adeg arferai mamau Tsieineaidd wniö botymau bach jâd ar ffurf ystlum ar gapiau eu babanod, arfer y credid fyddai'n rhoi iddynt hir oes. Yn aml gwelir ystlumod yn addurn ar wrthrychau celf, tapestrïau, gwisgoedd ymerodrol, dodrefn cartref yn yr oes a fu ac yn yr oes fodern.*


### Ystlum pedol mwyaf

Ardaloedd o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol lle mae angen cymryd camau gweithredu (wedi'u lliwio yn felyn; mae'r ardaloedd craidd wedi'u lliwio yn wyrdd; mae'r sgwariau 10km sy'n cynnwys mannau magu'r ystlumod wedi'u lliwio yn goch)



### Ystlum pedol lleiaf

Ardaloedd o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol lle mae angen cymryd camau gweithredu (wedi'u lliwio yn felyn; mae'r ardaloedd craidd wedi'u lliwio yn wyrdd)




**Ystlum lleiaf, Ystlum lleiaf meinlais, Ystlum hirglust, Ystlum mawr**

**Ardaloedd o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol lle mae angen cymryd camau gweithredu (wedi'u lliwio yn felyn; mae'r ardaloedd craidd wedi'u lliwio yn wvrdd)**



**Ystlum du**

**Ardaloedd o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol sy'n flaenoriaethau a lle mae angen cymryd camau gweithredu; Coch = gwarchod y safle a'i reoli a chynnal arolygon pellach; Melyn = angen cynnal**



**Ardaloedd o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol lle mae angen cymryd camau gweithredu (wedi'u lliwio yn felyn)**





Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin  
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

[www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk](http://www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk)

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol:  
Cyngor Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Cyfoeth  
Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y  
Gwlyptir, Clwb Adar Sir Gaerfyrddin, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Gwarchod  
Glöynnod Byw, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin, Yr Ymddiriedolaeth  
Genedlaethol, Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, Naturiaethwyr Llanelli,  
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin  
Cymru, Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid